
beaufortresearch

# Arolwg Olrhain Ymddygiad 2024 Gweithredu ar Hinsawdd Cymru

## Adroddiad Blwyddyn 2



Paratowyd ar gyfer:
**SBW Advertising/ Llywodraeth Cymru**

Paratowyd gan:
**Beaufort Research**

beaufortresearch

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales

## Manylion cyswllt

Cysylltiadau asiantaeth: Fiona McAllister, Owen Knight

***Arolwg Olrhain Ymddygiad 2024 Gweithredu ar Hinsawdd Cymru***

Hydref 2024

**Beaufort Research**

2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

(029) 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

**www.beaufortresearch.co.uk**

## Telerau Contract

Oni chytunir fel arall, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn hawlfraint i Beaufort Research Ltd ac ni cheir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwiad y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi yn cael ei gwrthod.

Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwyir nodi: Beaufort Research Ltd fel darparwr, maint y sampl a dyddiadau maes.

© Beaufort Research Ltd 2024

Gwnaed y gwaith ymchwil hwn yn unol ag ISO 20252

MRS Evidence Matters Company Partner · ISO 20252 SGS · Social Research Association · Cyber Essentials

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ac amcanion ......................................**Error! Bookmark not defined.**

2. Methodoleg ........................................................**Error! Bookmark not defined.**

3. Canfyddiadau ymchwil ........................................**Error! Bookmark not defined.**

3.1 Ymddygiad presennol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd ........... **Error! Bookmark not defined.**

3.1.1 Camau sy'n cael eu cymryd (yn ddigymell) ............. **Error! Bookmark not defined.**

3.1.2 Ymddygiadau a gymhellwyd......................**Error! Bookmark not defined.**

3.1.3 Trosolwg o gamau a rhwystrau i weithredu, fesul thema **Error! Bookmark not defined.**

3.2 Gwybodaeth am y camau y gall unigolion eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd ......................................................**Error! Bookmark not defined.**

3.3 Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (tymor byr a thymor hwy).........................**Error! Bookmark not defined.**

3.4 Deall pa gamau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd ...............................................................**Error! Bookmark not defined.**

3.5 Canfyddiadau risg ar gyfer effeithiau newid hinsawdd penodol ........... **Error! Bookmark not defined.**

3.6 Ymwybyddiaeth o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru, a'i heffaith...................................................**Error! Bookmark not defined.**

4. Crynodeb a chasgliadau .......................................**Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 1 – Holiadur Ymchwil .....................................**Error! Bookmark not defined.**

## 1. Cyflwyniad ac amcanion

Comisiynwyd Beaufort gan SBW Advertising yn ystod haf 2023 i gynnal arolwg ymhlith poblogaeth Cymru yn mesur ymddygiad y cyhoedd a'u parodrwydd i weithredu ar newid hinsawdd. Cynlluniwyd arolwg 2023 i ddarparu data llinell sylfaen cyn lansio'r prif gam hysbysebu ar y teledu a'r radio ar gyfer Bloc 2 o ymgyrch gyfathrebu Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru yn yr hydref.

Mae Bloc 2 yr ymgyrch yn canolbwyntio ar y camau y gall unigolion sy'n byw yng Nghymru eu cymryd yn bersonol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar draws pedair thema allweddol:

- Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio
- Dewisiadau Teithio Gwyrdd
- Dewisiadau Bwyd Gwyrdd, a
- Dewisiadau Ynni Gwyrdd.

Dilynodd Bloc 1 a dynnodd sylw at gamau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater, er enghraifft ynghylch ynni adnewyddadwy a theithio llesol.

Amcanion yr arolwg o ymddygiad yw asesu:

- Ymddygiad presennol y cyhoedd o ran gweithredoedd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Parodrwydd y cyhoedd i fabwysiadu ymddygiadau penodol yn y dyfodol.
- Gwybodaeth am weithredoedd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Lle ceir gweithredu, pa gamau penodol sy'n cael eu cymryd.
- Lle na cheir unrhyw weithredu, beth yw'r prif rwystrau i wneud hynny?
- Canfyddiadau o ba weithredoedd fydd yn cael yr effaith fwyaf ar newid hinsawdd.
- Canfyddiadau risg ar gyfer effeithiau newid hinsawdd penodol (ychwanegwyd yn 2024).
- Canfyddiadau o gysylltiadau rhwng newid hinsawdd a digwyddiadau penodol (ychwanegwyd yn 2024).
- Atgof o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru a'i heffaith ar agweddau, cymhellion ac ymddygiad (ychwanegwyd yn 2024).

Bwriad yr arolwg yw olrhain y mesurau hyn dros amser ac asesu newidiadau wrth i'r ymgyrch ddatblygu. Felly, fe'i hailadroddwyd yn ystod haf 2024, flwyddyn i mewn i Floc 2 yr ymgyrch a chyn lansio Bloc 3 yn ystod hydref 2024. Bydd Bloc 3 yn canolbwyntio ar dargedu newid ymddygiad penodol o amgylch un ymddygiad a ddewiswyd – Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio.

Mae'r arolwg olrhain ymddygiad yn ategu ymchwil olrhain cyfathrebiadau rheolaidd sy'n monitro perfformiad yr ymgyrch. Ei amcanion cyffredinol yw:

- Monitro ymddygiad a gwybodaeth y cyhoedd a'u dealltwriaeth o weithredoedd a all helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

- Asesu parodrwydd i fabwysiadu ymddygiadau penodol i helpu i liniaru newid hinsawdd.
- Olrhain unrhyw newidiadau ar y mesurau hyn dros oes ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru.

## 2. Methodoleg

Fel yn 2023, gwnaeth arolwg 2024 gyfweld â sampl o 1,000 o oedolion yng Nghymru, a ddyluniwyd i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth oedolion sy'n byw yng Nghymru sy'n 16 oed neu'n hŷn. Fe'i cynhaliwyd ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel Cint[1].

Roedd yr arolwg yn ddarostyngedig i gyd-gloi rheolaethau cwota[2] demograffig oed gyda rhywedd. Pennwyd rheolaeth cwota arall ar wahân ar sail gradd gymdeithasol[3] a chynhaliwyd arolygon gyda thrigolion pob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar y cam dadansoddi, pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grŵp awdurdod lleol a gradd gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu ffigurau Cyfrifiad 2021 ac yn cynrychioli poblogaeth 16+ oed Cymru.

Roedd y cyfweliadau yn seiliedig ar holiadur strwythuredig (gweler Atodiad 1). Roedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a gellid ei gyflawni yn yr iaith a ffafriwyd gan y cyfranogwyr. Cymerodd y cyfweliadau 20 munud i'w cwblhau ar gyfartaledd.

Gwnaed gwaith maes rhwng 7 a 19 Awst 2024. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau eu cwblhau a'u dadansoddi. Darparwyd tabliadau data llawn o'r arolwg mewn adroddiad technegol ar wahân.

[1] Mae platfform Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau diwydiant amrywiol gan gynnwys ISO 20252 – sef y safon ansawdd rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau ymchwil i'r farchnad. Corfforir gwiriadau ansawdd data lluosog yn system Cint ac mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau rheoli ansawdd a'i fesurau ei hun yn yr arolwg, gan eithrio ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

[2] Niferoedd targed o gyfweliadau a bennir ar gyfer grwpiau demograffig penodol yn y boblogaeth, er mwyn helpu i gyflawni sampl gynrychioliadol ar gyfer yr arolwg, yw rheolaethau cwota. Mae cyd-gloi rheolaethau cwota demograffig yn golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oedran o fewn rhywedd.

[3] System ddosbarthu ar sail galwedigaeth a ddatblygwyd i'w defnyddio ar yr Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol yw gradd gymdeithasol. Diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:
**AB:** Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd
**C1:** Galwedigaethau goruchwylio, clerigol ac is-reoli, gweinyddol a phroffesiynol
**C2:** Gweithwyr llaw crefftus
**DE:** Gweithwyr llaw lled-grefftus a heb sgiliau, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a'r gradd isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig.

# 3. Canfyddiadau ymchwil

## 3.1 Ymddygiad presennol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd

### 3.1.1 Camau sy'n cael eu cymryd (yn ddigymell)


Pan ofynnwyd cwestiwn agored am yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn bersonol, os o gwbl, i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, rhoddodd naw o bob 10 o'r rhai a gyfwelwyd yn 2024 (90%) enghreifftiau o gamau gweithredu yr oeddent yn eu cymryd. Dim ond 7% ddywedodd nad oeddent yn gwneud dim. Roedd y lefelau hyn yn debyg i'r rhai a welwyd yn arolwg llinell sylfaen 2023.

Y rhai a oedd yn cofio gweld ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru oedd fwyaf tebygol o sôn am gymryd rhai camau gweithredu. Rhoddodd 98% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch enghreifftiau o gamau gweithredu yr oeddent yn eu cymryd yn bersonol, o'u cymharu ag 88% o'r rhai nad oeddent yn ymwybodol ohoni a oedd yn gwneud hynny.

Fel yn 2023, **ailgylchu** oedd yr ymddygiad a grybwyllwyd fwyaf i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Dywedodd bron i chwech o bob 10 ymatebydd (58%) yn ddigymell eu bod yn ailgylchu/ ailgylchu mwy/ ailgylchu popeth y gallent. Yr ymddygiad mwyaf cyffredin nesaf oedd **lleihau'r defnydd o ynni gartref**, a rhoddodd un o bob pum ymatebydd (20% – gostyngiad bach o'i gymharu â lefel 2023, sef 23%) enghreifftiau megis diffodd dyfeisiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, troi tymheredd y gwres canolog i lawr a defnyddio offer sy'n arbed ynni. Ychydig islaw hyn, crybwyllodd cyfran debyg **ddewisiadau trafnidiaeth gwyrdd** – dywedodd 14% eu bod yn defnyddio eu car yn llai aml/ yn gyrru llai/ nad oeddent yn berchen ar gar, a dywedodd 11% arall eu bod yn cerdded/ beicio yn fwy y dyddiau hyn. Cyfrannau llai o ymatebwyr (8% neu lai) a grybwyllodd bob ymddygiad arall yn ddigymell.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y camau gweithredu mwyaf cyffredin sy'n cael eu cymryd.

*Ffigur 1: Y prif gamau gweithredu* sy'n cael eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (yn ddigymell) – 2024 o gymharu â 2023, %*




*Sylfaen: Pawb (1,000)*
**Camau gweithredu a grybwyllwyd yn ddigymell gan 4% neu fwy o'r sampl (2024)/ 5% neu fwy (2023)*

### 3.1.2 Ymddygiadau a gymhellwyd

Yna cymhellwyd ymatebwyr â chyfres o wahanol ymddygiadau a allai helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (mewn trefn ar hap) a gofynnwyd iddynt a oeddent yn cymryd unrhyw gamau i wneud pob un o'r rhain y dyddiau hyn. Ar gyfer pob un, gallent ddewis:

- A oeddent yn gwneud cymaint ag y gallent (neu eisoes wedi ei wneud, mewn ychydig o achosion lle'r oedd y cam gweithredu yn gyfyngedig, e.e. gosod mesurydd clyfar)
- A oeddent yn gwneud rhywbeth ond ei bod yn debyg y gallent wneud mwy, neu
- Nad oeddent yn gwneud dim.

Ar ôl cael gwared ar y rhai a ddywedodd nad oedd pob ymddygiad yn berthnasol iddynt, yr ymddygiadau â'r **niferoedd mwyaf** ar y cyfan (y cwbl yn cael eu gwneud gan o leiaf naw o bob 10 o'r rhai a gyfwelwyd) oedd:

- Ailgylchu mwy (**97% yn gwneud i ryw raddau ar hyn o bryd**/ 3% ddim yn gwneud o gwbl)
- Lleihau eu gwastraff bwyd (**95% yn gwneud**/ 4% ddim yn gwneud)

- Lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref (**93% yn gwneud**/ 7% ddim yn gwneud)
- Lleihau'r hyn y maent yn ei brynu (**90% yn gwneud**/ 10% ddim yn gwneud)
- Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (**89% yn gwneud**/ 10% ddim yn gwneud)
- Addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (**87% yn gwneud**/ 12% ddim yn gwneud)
- Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (**85% yn gwneud**/ 14% ddim yn gwneud)

Ymhlith y rhai a ddywedodd fod pob cam gweithredu yn berthnasol, roedd amrywiadau amlwg i'w gweld rhwng rhai ymddygiadau o ran lle i wneud mwy. Gan adlewyrchu goruchafiaeth ailgylchu yn y cwestiwn agored am gamau a oedd yn cael eu cymryd ar y pryd, dywedodd bron i wyth o bob 10 (79%) eu bod **eisoes yn gwneud cymaint ag y gallent** i ailgylchu mwy. Yn yr un modd, roedd bron i saith o bob 10 (67%) yn teimlo eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent i leihau eu gwastraff bwyd, a soniodd oddeutu chewch o bob 10 am osod mesurydd clyfar a lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref (61% a 59% yn y drefn honno).

Er bod rhwng pedwar a phump o bob 10 yn teimlo eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent i ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (50%), i leihau'r hyn y maent yn ei brynu (48%), i atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (44%), ac i addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (44%), roedd cyfrannau sylweddol yn teimlo **y gallent wneud mwy fwy na thebyg** ym mhob un o'r meysydd hyn.


Roedd llai yn teimlo eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy ac i siopa'n gynaliadwy (oddeutu un o bob tri ym mhob achos). Roedd oddeutu hanner (50% a 48% yn y drefn honno) yn gwneud rhywbeth am bob un o'r rhain, ond roeddent yn cydnabod bod **lle i wneud mwy**.

Dyma'r ymddygiadau â'r **niferoedd isaf ar y pryd**:

- Newid i gerbyd allyriadau is (hybrid neu drydan) (nid oedd 62% o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt yn gwneud hyn ar y pryd)
- Newid i ynni adnewyddadwy (nid oedd 60% o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt yn gwneud hyn)
- Newid i dariff ynni gwyrdd (nid oedd 35% o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt yn gwneud hyn)
- Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus/ a rennir yn fwy (nid oedd 26% o'r rhai yr oedd hyn yn berthnasol iddynt yn gwneud hyn)
- Gosod mesurydd clyfar (nid oedd 25% o'r rhai yr oedd hyn yn berthnasol iddynt yn gwneud hyn) a
- Hedfan llai (nid oedd 25% o'r rhai yr oedd hyn yn berthnasol iddynt yn gwneud hyn).

Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion ar gyfer pob ymddygiad yn Ffigur 2.

*Ffigur 2: Ymddygiad presennol a gymhellwyd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd – 2024, %*




*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 722 i 987)*

Roedd y rhai a oedd yn ymwybodol o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent (neu eisoes wedi gwneud hyn) ar gyfer pob ymddygiad bron, o'u cymharu â'r rhai nad oeddent wedi gweld yr hysbysebion. Hedfan llai oedd yr unig eithriad, lle dywedodd cyfran ychydig yn uwch o'r rhai nad oeddent yn cofio'r ymgyrch eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent (gweler Tabl 1).

Roedd y gwahaniaethau yn amlwg iawn ar gyfer bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy, siopa'n gynaliadwy, addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni a newid i ynni adnewyddadwy.

*Tabl 1: Ymddygiad presennol a gymhellwyd yn ôl ymwybyddiaeth o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru*

| | Wedi gweld yr ymgyrch | Heb weld yr ymgyrch |
|---|---|---|
| *Y ganran a ddywedodd Rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf/ rwyf eisoes wedi gwneud hyn...* | | |
| Ailgylchu mwy | 81 | 79 |
| Lleihau fy ngwastraff bwyd | 71 | 66 |
| Lleihau fy nefnydd o ynni a dŵr gartref | 66 | 56 |
| Gosod mesurydd clyfar | 62 | 60 |
| Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl | 58 | 49 |
| Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy | 56 | 49 |
| Addasu fy nghartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni | 55 | 38 |
| Lleihau'r hyn yr wyf yn ei brynu | 54 | 45 |
| Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy | 51 | 38 |
| Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd | 49 | 42 |
| Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy | 47 | 26 |
| Siopa'n gynaliadwy | 47 | 26 |
| Hedfan llai | 46 | 49 |
| Newid i dariff ynni gwyrdd | 41 | 30 |
| Newid i ynni adnewyddadwy | 31 | 15 |
| Newid i gerbyd allyriadau is | 27 | 14 |


*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 722 i 987)*

O edrych ar ganlyniadau'r arolwg dros amser, er bod patrwm ymddygiad 2024 yn debyg iawn i 2023, mae rhai symudiadau cadarnhaol yn amlwg ar ymddygiadau penodol o'r naill flwyddyn i'r llall. Gan ganolbwyntio ar y newidiadau mwyaf (a nodir mewn gwyrdd yn Ffigur 3 isod):

- dywedodd 82% o'r ymatebwyr yn 2024 eu bod wrthi'n cymryd rhai camau i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (cynnydd o'i gymharu â 77% yn 2023)
- dywedodd 75% eu bod yn cymryd rhai camau i osod mesurydd clyfar (cynnydd o'i gymharu â 71% yn 2023)
- roedd 61% yn cymryd rhai camau i newid i dariff ynni gwyrdd (cynnydd o'i gymharu â 53% yn 2023).

Hefyd, er eu bod yn aros ar lefelau isel, bu cynnydd sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhai camau i newid i ynni adnewyddadwy (i fyny i 39%, o 34% yn 2023) ac i newid i gerbyd allyriadau is (i fyny i 37%, o 32% yn 2023).

*Ffigur 3: Ymddygiad presennol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd – 2024 o gymharu â 2023, %*




*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 722 i 987 (2024); o 727 i 992 (2023)*

### 3.1.3 Trosolwg o gamau a rhwystrau i weithredu, fesul thema

Mae'r adran hon yn crynhoi'r camau a gymerir eisoes i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn ogystal â'r prif rwystrau sy'n atal rhai pobl rhag mabwysiadu pob ymddygiad. Trafodir yr ymddygiadau yn ôl thema, sef:

- Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd
- Dewisiadau Teithio Gwyrdd
- Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio
- Dewisiadau Bwyd Gwyrdd.

Mae Tabl 2 yn dangos sut mae'r ymddygiadau wedi eu grwpio fesul thema:

*Tabl 2: Ymddygiadau wedi eu grwpio fesul thema*

| ***Thema*** | **Ymddygiadau a brofwyd** |
|---|---|
| ***Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd*** | Lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref<br>Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni<br>Gosod mesurydd clyfar<br>Newid i dariff ynni gwyrdd<br>Newid i ynni adnewyddadwy |
| ***Dewisiadau Teithio Gwyrdd*** | Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy<br>Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy<br>Hedfan llai<br>Newid i gerbyd allyriadau is |
| ***Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio*** | Ailgylchu mwy<br>Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl<br>Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd<br>Lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu<br>Siopa'n gynaliadwy |
| ***Dewisiadau Bwyd Gwyrdd*** | Lleihau eich gwastraff bwyd<br>Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy |

Pan roddodd ymatebwyr ateb **cadarnhaol** i ymddygiad penodol, gofynnwyd cwestiwn dilynol iddynt a oedd yn rhestru amrywiaeth o gamau posibl yn gysylltiedig â phob ymddygiad a gallent ddethol pa gamau yr oeddent yn eu cymryd ar y pryd. Nid yw'r adroddiad hwn yn trafod camau a gymerir yn fanwl, ond mae'r canlyniadau llawn ar gael yn y tabliadau data.

Dangoswyd rhestr o resymau posibl dros beidio â gwneud pob ymddygiad i'r rhai a roddodd ateb **negyddol** i bob un, a gofynnwyd iddynt beth oedd yn eu hatal rhag gwneud hynny. Trafodir y prif rwystrau ar gyfer pob thema yn yr adran berthnasol isod.

Gan edrych ar bob thema yn ei thro:

Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd

Mae Tabl 3 yn crynhoi ymddygiad presennol o ran **Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd**.

Mae'n dangos bod y rhai yr oedd pob gweithred yn berthnasol iddynt yn fwy tebygol o leihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref, o addasu eu cartref i'w wneud yn fwy

effeithlon o ran ynni, ac o osod mesurydd clyfar nac o fod wedi newid i dariff ynni gwyrdd neu ynni adnewyddadwy. Wedi dweud hynny, mae cyfran y cyfranogwyr sy'n cymryd rhai camau i newid i dariff ynni gwyrdd ac i newid i ynni adnewyddadwy wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolwg llinell sylfaen yn 2023.

Er bod cyfrannau'r rhai a ddywedodd eu bod eisoes yn cymryd camau i leihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref, ac i addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni yn uchel (93% ac 87% yn y drefn honno), roedd o leiaf draean ym mhob achos yn teimlo ei bod yn debyg y gallent wneud mwy ar gyfer pob un ohonynt. Yn yr un modd, roedd dros un o bob pedwar (27%) yn teimlo bod lle i wneud mwy o ran newid i dariff ynni gwyrdd.

*Tabl 3: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd, 2024*

| Thema | Ymddygiadau a brofwyd | % yn gwneud pob un ar hyn o bryd/ eisoes wedi gwneud* | % yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy |
|---|---|---|---|
| **Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd** | Lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref | 93 | 34 |
| | Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni | 87 | 44 |
| | Gosod mesurydd clyfar | 75 | 14 |
| | Newid i dariff ynni gwyrdd | 61 | 27 |
| | Newid i ynni adnewyddadwy | 39 | 20 |

*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 856 i 987)*
** Cyfanswm y rhai a atebodd 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf/ Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'*

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn gweithredu o ran pob ymddygiad ar y pryd beth oedd yn eu hatal rhag gwneud hynny. Darparwyd rhestr o rwystrau posibl ar gyfer pob ymddygiad Dewis Ynni Cartref Gwyrdd a gallai'r ymatebwyr ddewis pob un a oedd yn berthnasol neu ysgrifennu unrhyw rwystr/au arall/eraill o'u dewis.

Canfyddiad y byddai'n **costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud** oedd y prif rwystr i wneud rhai o'r Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd. Nodwyd cost gan bron i hanner (48%) y rhai nad oeddent yn cymryd unrhyw gamau ar y pryd i addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni a chan bron i bedwar o bob 10 (37%) o'r rhai nad oeddent wedi gwneud dim i newid i ynni adnewyddadwy.

Fel yn 2023, y prif reswm a roddwyd gan bron i hanner (47%) y rhai nad oeddent wedi gosod mesurydd clyfar neu nad oeddent yn gwneud dim i osod un oedd **nad oeddent wedi eu hargyhoeddi mai dyma oedd y peth iawn i'w wneud.**

Ni ddaeth un rhwystr pennaf i'r amlwg fel un a oedd yn atal pobl rhag lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref neu newid i dariff ynni gwyrdd. Y prif resymau a

roddwyd gan y rhai nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau yn hyn o beth oedd eu bod yn teimlo eu bod eisoes wedi lleihau cymaint ag y gallent, a bod yn well ganddynt fod â chartref cynnes. O ran newid i dariff ynni gwyrdd, roedd y rhwystrau yn gyfuniad o ddiffyg gwybodaeth am sut i wneud hynny, canfyddiad y byddai'n ddrud a diffyg amlygrwydd (gweler Tabl 4).

*Tabl 4: Y prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd*

| *Thema* | Ymddygiadau | Y 5 rhwystr mwyaf | % |
|---|---|---|---|
| ***Dewisiadau Ynni Cartref Gwyrdd*** | **Lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref** | **Eisoes wedi lleihau cymaint ag y gallaf** | **34** |
| | | **Mae'n well gennyf fod â chartref cynnes** | **34** |
| | | Mae'n well gen i faddon na chawod | 27 |
| | | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 25 |
| | *Sylfaen: 69** | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 21 |
| | **Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni** | **Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud** | **48** |
| | | Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef | 25 |
| | | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 19 |
| | | Anghyfleus (e.e. aflonyddgar, yn gofyn amser) | 12 |
| | *Sylfaen: 121* | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 9 |
| | **Gosod mesurydd clyfar** | **Ddim wedi fy argyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud** | **47** |
| | | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 13 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 12 |
| | | Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef | 11 |
| | *Sylfaen: 228* | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 11 |
| | **Newid i dariff ynni gwyrdd** | **Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny** | **32** |
| | | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 29 |
| | | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 23 |
| | | Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef | 9 |
| | *Sylfaen: 311* | Ddim wedi fy argyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud | 9 |
| | **Newid i ynni adnewyddadwy** | **Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud** | **37** |
| | | **Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny** | **31** |
| | | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 12 |
| | | Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef | 12 |
| | *Sylfaen: 494* | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 10 |

*Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae maint y sylfaen yn amrywio); *Rhybudd – maint sylfaen bach; y rhai a grybwyllwyd gan 30% neu fwy o'r rhai nad ydynt yn gwneud pob un yw'r rhwystrau a amlygwyd*

Dewisiadau Teithio Gwyrdd

Mae Tabl 5 yn crynhoi ymddygiad presennol o ran **Dewisiadau Teithio Gwyrdd**.

Dywedodd cyfrannau uchel o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn gyrru neu'n mynd ar awyrennau eu bod yn cymryd rhai camau ar y pryd i ddefnyddio llai ar eu car ac i hedfan llai. Dywedodd oddeutu wyth o bob 10 o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt eu bod yn cymryd camau i yrru llai ac i gerdded neu feicio mwy (82% – cynnydd o'i gymharu â 79% yn 2023), dywedodd 75% eu bod yn cymryd camau i hedfan llai (cynnydd o'i gymharu â 73%) a dywedodd 73% eu bod yn cymryd camau i yrru llai ac i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy. Ar yr un pryd, roedd oddeutu un o bob tri o'r rhai a oedd eisoes yn cymryd rhai camau yn hyn o beth yn teimlo ei bod yn debyg y gallent wneud mwy.

Mewn cyferbyniad, roedd llai na phedwar o bob 10 (37%) o'r rhai yr oedd yn berthnasol iddynt eisoes wedi newid neu'n cymryd camau i newid i gerbyd hybrid neu drydan. Er ei bod yn dal yn gymharol isel, mae'r gyfran hon wedi cynyddu ers 2023 (32%).

*Tabl 5: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Dewisiadau Teithio Gwyrdd, 2024*

| ***Thema*** | **Ymddygiadau a brofwyd** | **% yn gwneud pob un ar hyn o bryd/ eisoes wedi gwneud*** | **% yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy** |
|---|---|---|---|
| ***Dewisiadau Teithio Gwyrdd*** | Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy | 82 | 31 |
| | Hedfan llai | 75 | 27 |
| | Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy | 73 | 32 |
| | Newid i gerbyd allyriadau is | 37 | 18 |

*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 722 i 892)*
** Cyfanswm y rhai a atebodd 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf/ Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'*

Gan droi at yr hyn sy'n atal pobl rhag cymryd camau i wneud Dewisiadau Teithio Gwyrdd, fel yn 2023, **cost** oedd y prif rwystr i newid i gerbyd allyriadau is. Nodwyd y gost o gaffael car hybrid neu drydan fel rhwystr gan bron i ddau o bob tri o'r rhai nad oeddent yn cymryd unrhyw gamau ar y pryd. Roedd y ffaith nad oeddent eisiau cerbyd trydan a phryder am nifer y pwyntiau gwefru yng Nghymru yn rhwystrau i oddeutu traean (32% a 31%).

Bod â **theithiau a oedd yn rhy bell** i'w gwneud ar feic neu ar droed oedd y rheswm pennaf a oedd yn atal rhai pobl rhag defnyddio llai ar eu car a beicio neu gerdded mwy (crybwyllwyd gan 58% o'r grŵp hwn). Dywedodd 36% arall fod **bod heb feic** yn rhwystr. Nododd y rhai nad oeddent yn cymryd unrhyw gamau i yrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy mai **darpariaeth**

**trafnidiaeth gyhoeddus wael** yn eu hardal oedd y prif reswm dros beidio â gwneud hynny (crybwyllwyd gan 42%). Roedd **cost trafnidiaeth gyhoeddus** yn rhwystr mawr arall (a grybwyllwyd gan 37%).

Crybwyllodd pedwar o bob 10 (40%) o'r rhai nad oeddent yn cymryd camau i hedfan llai ar y pryd eu bod yn **mwynhau hedfan** a bod dewisiadau eraill i hedfan yn **llai cyfleus**.

*Tabl 6: Y prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Dewisiadau Teithio Gwyrdd*

| Thema | Ymddygiadau | Y 5 rhwystr mwyaf | % |
|---|---|---|---|
| ***Dewisiadau Teithio Gwyrdd*** | **Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy** | **Mae'r mwyafrif o'm teithiau yn rhy bell i gerdded/ beicio** | **58** |
| | | **Nid wyf yn berchen ar feic** | **36** |
| | | Nid wyf yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded a beicio | 26 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 23 |
| | *Sylfaen: 153* | Nid oes gennyf amser i wneud hynny | 22 |
| | **Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy** | **Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus dda yn agos ataf** | **42** |
| | | **Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud** | **37** |
| | | Yn mwynhau gyrru ac nid wyf yn dymuno defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle hynny | 29 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 28 |
| | *Sylfaen: 223* | Nid wyf yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus | 20 |
| | **Hedfan llai** | **Mwynhau hedfan** | **40** |
| | | **Mae'n llai cyfleus teithio gan ddefnyddio dulliau eraill** | **40** |
| | | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 13 |
| | | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 9 |
| | *Sylfaen: 187* | Ddim wedi fy argyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud | 8 |
| | **Newid i gerbyd allyriadau is** | **Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud** | **64** |
| | | **Nid wyf eisiau car trydan** | **32** |
| | | **Yn pryderu nad oes digon o bwyntiau gwefru ledled Cymru** | **31** |
| | | Ddim wedi fy argyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud | 21 |
| | *Sylfaen: 474* | Yn methu gosod gwefrwr (yn byw mewn fflat/tŷ teras) | 20 |

*Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae maint y sylfaen yn amrywio); y rhai a grybwyllwyd gan 30% neu fwy o'r rhai nad ydynt yn gwneud pob un yw'r rhwystrau a amlygwyd*

<u>Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio</u>

Mae Tabl 7 yn crynhoi ymddygiad presennol o ran **Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio**.

Roedd y gyfradd mabwysiadu honedig ar gyfer pob ymddygiad Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio yn uchel. Dywedodd bron i bob un o gyfranogwyr arolwg 2024 (97%) eu bod yn cymryd camau i ailgylchu'n fwy y dyddiau hyn. Dywedodd oddeutu naw o bob 10 eu bod yn lleihau'r hyn yr oeddent yn ei brynu (e.e. dim ond yn prynu pethau yr oedd eu hangen arnynt, yn prynu eitemau o ansawdd gwell sy'n para'n hirach ac yn benthyg neu'n rhentu eitemau) (90%), yn ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (e.e. prynu eitemau ail-law yn hytrach na rhai newydd, yn gwerthu neu'n rhoi pethau yn hytrach na'u taflu, yn ailbwrpasu pethau er mwyn rhoi bywyd newydd iddynt) (89%) ac yn atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (85%). Yn olaf, dywedodd wyth o bob 10 (80%) eu bod yn cymryd camau i siopa'n gynaliadwy.

Fodd bynnag, ar gyfer pob ymddygiad Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio ac eithrio ailgylchu, roedd cyfran uchel o'r rhai a oedd eisoes yn gwneud pob un i ryw raddau yn teimlo y gallent wneud mwy. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer siopa'n gynaliadwy – er i'r mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd ddweud eu bod yn gwneud hyn i ryw raddau (80%), roedd bron i hanner (48%) yn teimlo bod lle i wneud mwy.

*Tabl 7: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio*

| ***Thema*** | **Ymddygiadau a brofwyd** | **% yn gwneud pob un ar hyn o bryd/ eisoes wedi gwneud*** | **% yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy** |
|---|---|---|---|
| ***Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio*** | Ailgylchu mwy | 97 | 18 |
| | Lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu | 90 | 42 |
| | Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl | 89 | 39 |
| | Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd | 85 | 42 |
| | Siopa'n gynaliadwy | 80 | 48 |

*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 973 i 992)*
** Cyfanswm y rhai a atebodd 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf/ Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'*

Amlinellir y prif rwystrau i wneud newidiadau o ran Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio yn Nhabl 8 ac roeddent yn amrywio yn ôl yr ymddygiad:

- **Cost** oedd y prif rwystr i siopa'n gynaliadwy, a grybwyllwyd gan 53% o'r rhai nad oeddent yn cymryd camau i wneud hyn ar y pryd.

- **Ddim yn meddu ar yr offer neu'r sgiliau iawn** oedd y prif rwystr i atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd, a chyfeiriodd 49% o'r rhai nad oeddent yn gwneud hyn ar y pryd at hyn. Hefyd, roedd oddeutu traean o'r grŵp hwn (32%) o'r farn ei bod yn **rhy anodd ei wneud/yn ormod o drafferth**.

- Y ffaith **ei bod yn well ganddynt fod yn berchen ar eu pethau eu hunain yn hytrach na benthyg eitemau** ac **erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd** oedd y prif resymau a roddwyd gan y rhai nad oeddent yn cymryd camau i leihau'r hyn yr oeddent yn ei brynu (a grybwyllwyd gan 25% a 24% o'r grŵp hwn yn y drefn honno).

- **Ddim yn hoffi'r syniad o nwyddau ail-law** oedd y prif ffactor a oedd yn atal pobl rhag ailddefnyddio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (a nodwyd gan 37% o'r grŵp hwn).

- Cyfeiriodd 41% o'r rhai nad oeddent yn cymryd camau i ailgylchu mwy ar y pryd at **wasanaethau/dewisiadau ailgylchu lleol gwael** – noder, roedd maint y sylfaen yn fach iawn (dim ond 24 o bobl).

*Tabl 8: Y prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio*

| Thema | Ymddygiadau | Y 5 rhwystr mwyaf | % |
|---|---|---|---|
| ***Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio*** | **Ailgylchu mwy** | **Nid yw casgliadau/ dewisiadau ailgylchu yn dda lle'r wyf yn byw** | **41** |
| | | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 29 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 16 |
| | | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 13 |
| | *Sylfaen: 24** | Nid oes gennyf amser i wneud hynny | 9 |
| | **Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl** | **Ddim yn hoffi'r syniad o nwyddau ail-law** | **37** |
| | | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 23 |
| | | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 14 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 14 |
| | *Sylfaen: 94** | Nid oes gennyf amser i wneud hynny | 9 |
| | **Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd** | **Ddim yn meddu ar yr offer/ sgiliau iawn** | **49** |
| | | **Anodd ei wneud/ gormod o drafferth** | **32** |
| | | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 21 |
| | | Nid oes gennyf amser i wneud hynny | 17 |
| | *Sylfaen: 129* | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 17 |
| | **Lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu** | Mae'n well gennyf fod â'm pethau fy hun yn hytrach na benthyg eitemau | 25 |
| | | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 24 |
| | | Rwy'n mwynhau siopa am eitemau newydd | 18 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 18 |
| | *Sylfaen: 90** | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 15 |
| | **Siopa'n gynaliadwy** | **Yn costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud** | **53** |
| | | Rwy'n hoffi'r brandiau yr wyf yn eu prynu ar hyn o bryd ac nid wyf eisiau newid | 19 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 16 |
| | | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 15 |
| | *Sylfaen: 182* | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 13 |

*Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae maint y sylfaen yn amrywio); *Rhybudd – meintiau sylfaen bach; y rhai a grybwyllwyd gan 30% neu fwy o'r rhai nad ydynt yn gwneud pob un yw'r rhwystrau a amlygwyd*

## Dewisiadau Bwyd Gwyrdd

Yn olaf, mae Tabl 9 yn crynhoi ymddygiad presennol o ran **Dewisiadau Bwyd Gwyrdd**.

Roedd bron i bawb yr oedd yn berthnasol iddynt (95%) yn cymryd camau i leihau eu gwastraff bwyd, a dywedodd oddeutu wyth o bob 10 (82%) eu bod yn cymryd rhai camau i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy.

Fodd bynnag, roedd cyfran uchel (50% ar y cyfan) yn teimlo bod lle i wneud mwy o ran bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy.

*Tabl 9: Crynodeb o ymddygiad presennol ar gyfer Dewisiadau Bwyd Gwyrdd*

| ***Thema*** | **Ymddygiadau a brofwyd** | **% yn gwneud pob un ar hyn o bryd/ eisoes wedi gwneud*** | **% yn gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallent wneud mwy** |
|---|---|---|---|
| ***Dewisiadau Bwyd Gwyrdd*** | Lleihau eich gwastraff bwyd | 95 | 28 |
| | Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy | 82 | 50 |

*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 978 i 983)*
** Cyfanswm y rhai a atebodd 'Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf/ Ydw, rwyf eisoes wedi gwneud hyn' ac 'Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy'*

Gan droi at y rhwystrau i Ddewisiadau Bwyd Gwyrdd, canfyddiad ei fod **yn costio gormod/ yn rhy ddrud** oedd y prif reswm a oedd yn atal pobl rhag cymryd camau i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (a grybwyllwyd gan 56% o'r grŵp hwn).

Nid oedd un rhwystr a oedd fwyaf amlwg i gymryd camau i leihau gwastraff bwyd, ac roedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a gyfwelwyd eisoes yn gwneud hynny. Yn lle hynny, crybwyllodd oddeutu un o bob pump nad oeddent erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd (22%) a'i bod yn anodd ei wneud/ gormod o drafferth (18%) a rhwystrau eraill oedd nad oeddent wedi eu hargyhoeddi mai dyma oedd y peth iawn i'w wneud, angen mwy o wybodaeth am sut i'w wneud a'i fod yn rhy ddrud – noder, mae maint y sylfaen yn fach (41 o bobl) (gweler Tabl 10).

*Tabl 10: Y prif rwystrau i fabwysiadu pob ymddygiad ar gyfer Dewisiadau Bwyd Gwyrdd*

| Thema | Ymddygiadau | Y 5 rhwystr mwyaf | % |
|---|---|---|---|
| **Dewisiadau Bwyd Gwyrdd** | **Lleihau eich gwastraff bwyd** | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 22 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 18 |
| | | Ddim wedi fy argyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud | 16 |
| | | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 16 |
| | *Sylfaen: 41** | Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud | 15 |
| | **Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy** | **Yn costio gormod/ yn ddrud i'w wneud** | **56** |
| | | Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd | 18 |
| | | Angen mwy o wybodaeth am sut i wneud hynny | 13 |
| | | Anodd ei wneud/ gormod o drafferth | 12 |
| | *Sylfaen: 165* | Ddim wedi fy argyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud | 9 |


*Sylfaen: y rhai nad ydynt yn cymryd camau i wneud pob un ar hyn o bryd (mae maint y sylfaen yn amrywio); *Rhybudd – maint sylfaen bach; y rhai a grybwyllwyd gan 30% neu fwy o'r rhai nad ydynt yn gwneud pob un yw'r rhwystrau a amlygwyd*

## 3.2 Gwybodaeth am y camau y gall unigolion eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd

Pan ofynnwyd iddynt yn gyffredinol faint yr oeddent yn teimlo eu bod yn gwybod yn gyffredinol am y camau unigol y gall pobl yng Nghymru eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, rhannwyd y farn bron yn gyfartal. Roedd 50% o'r cyfranogwyr yn 2024 yn teimlo eu bod yn gymharol wybodus (gyda 12% yn dweud eu bod yn gwybod 'llawer iawn' a 34% yn dweud eu bod yn gwybod 'cryn dipyn'), ac roedd cyfran debyg (49%) yn teimlo bod eu gwybodaeth yn gyfyngedig (roedd 41% yn meddwl eu bod yn gwybod 'ychydig', ac 8% yn teimlo nad oeddent yn gwybod 'dim').
Mae lefelau gwybodaeth am ba gamau personol y gall pobl eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd wedi codi'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae cyfran y rhai sy'n dweud bod ganddynt wybodaeth resymol am yr hyn i'w wneud wedi codi o 43% yn 2023 i 50% yn 2024; i'r gwrthwyneb, mae'r rhai sy'n dweud nad ydynt yn gwybod 'dim' neu mai dim ond 'ychydig' maent yn ei wybod wedi gostwng o 55% yn 2023 i 49% yn 2024.

Y rhai a oedd yn ymwybodol o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru oedd fwyaf tebygol o deimlo'n wybodus – dywedodd 66% o'r rhai a oedd yn cofio'r ymgyrch pan gawsant eu cymell eu bod yn gwybod 'llawer iawn' (25%) neu 'cryn dipyn' (41%) am y camau unigol y gall pobl yng Nghymru eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae hyn yn cymharu â lefel o 44% ymhlith y rhai nad oeddent yn cofio gweld yr ymgyrch.

*Ffigur 4: Faint ydych chi'n teimlo eich bod yn ei wybod am y camau unigol y gall pobl yng Nghymru eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd – 2024 o gymharu â 2023, %*




*Sylfaen: Pawb (1,000)*

Roedd y rhai ag anabledd, y rhai yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE a menywod yn llai tebygol o fod yn hyderus eu bod yn gwybod pa gamau unigol y gellid eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Roedd cyfran pob grŵp a ddywedodd mai dim ond swm cyfyngedig o wybodaeth oedd ganddynt, os o gwbl, am y camau y gallent eu cymryd yn uwch na'r lefel gyffredinol o 49% (sef 61%, 59% a 52% yn y drefn honno).

Yna cymhellwyd yr ymatebwyr â'r ymddygiadau i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a drafodir uchod a gofynnwyd iddynt faint oeddent yn teimlo eu bod yn ei wybod am sut i wneud pob un.

Yr ymddygiadau yr oedd cyfranogwyr yn **teimlo fwyaf gwybodus** amdanynt (pan oedd o leiaf wyth o bob 10 yn teimlo eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'gryn dipyn') oedd:


- Ailgylchu mwy (**87% yn wybodus**/ 12% ddim yn wybodus)
- Ailgylchu eu gwastraff bwyd (**86% yn wybodus**/ 14% ddim yn wybodus)
- Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (**85% yn wybodus**/ 13% ddim yn wybodus)
- Lleihau'r hyn y maent yn ei brynu (**82% yn wybodus**/ 17% ddim yn wybodus)
- Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy (**79% yn wybodus**/ 19% ddim yn wybodus)
- Lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref (**79% yn wybodus**/ 20% ddim yn wybodus)

Ar y llaw arall, y rhai a oedd yn **lleiaf cyfarwydd**, lle'r oedd canran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn gwybod 'dim' neu ddim ond 'ychydig' am sut i wneud pob un uchaf, oedd:

- Newid i dariff ynni gwyrdd (59% yn wybodus/ **38% ddim yn wybodus**)
- Newid i gerbyd allyriadau is (57% yn wybodus/ **38% ddim yn wybodus**)
- Newid i ynni adnewyddadwy (63% yn wybodus/ **34% ddim yn wybodus**)
- Addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (66% yn wybodus/ **33% ddim yn wybodus**)
- Siopa'n gynaliadwy (71% yn wybodus/ **27% ddim yn wybodus**)
- Hedfan llai (68% yn wybodus/ **26% ddim yn wybodus**)
- Bwyta'n lleol an yn gynaliadwy (74% yn wybodus/ **25% ddim yn wybodus**).

Dangosir lefelau gwybodaeth ar gyfer pob un o'r 16 o ymddygiadau yn Ffigur 5.

*Ffigur 5: Faint y mae pobl yn ei wybod am sut i ymgymryd â gwahanol ymddygiadau i fynd i'r afael â newid hinsawdd – 2024, %*




*Sylfaen: Pawb (1,000)*

Roedd y rhai a oedd yn ymwybodol o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru yn fwy tebygol o deimlo'n wybodus am bob ymddygiad na'r rhai nad oeddent yn cofio gweld yr hysbysebion. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'gryn dipyn' am sut i wneud pob un yn uwch yn gyson ymhlith y rhai a oedd yn cofio'r ymgyrch nag ymhlith y rhai nad oeddent yn ei chofio.

Y gwahaniaethau mwyaf a welwyd oedd o ran sut i newid i gerbyd allyriadau is, newid i ynni adnewyddadwy, newid i dariff ynni gwyrdd, addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni, bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy, a siopa'n gynaliadwy (gweler Tabl 11).

*Tabl 11: Faint y mae pobl yn ei wybod am sut i ymgymryd â gwahanol ymddygiadau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn ôl ymwybyddiaeth o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru*

| *Y % sy'n dweud eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'gryn dipyn' am sut i wneud pob un* | **Wedi gweld yr ymgyrch** | **Heb weld yr ymgyrch** |
|---|---|---|
| Lleihau fy ngwastraff bwyd | 92 | 83 |
| Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl | 92 | 83 |
| Ailgylchu mwy | 91 | 85 |
| Lleihau'r hyn yr wyf yn ei brynu | 90 | 80 |
| Lleihau fy nefnydd o ynni a dŵr gartref | 89 | 76 |
| Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy | 89 | 76 |
| Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy | 85 | 70 |
| Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd | 84 | 74 |
| Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy | 84 | 72 |
| Gosod mesurydd clyfar | 84 | 71 |
| Siopa'n gynaliadwy | 83 | 68 |
| Addasu fy nghartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni | 78 | 61 |
| Newid i ynni adnewyddadwy | 77 | 57 |
| Hedfan llai | 74 | 66 |
| Newid i dariff ynni gwyrdd | 72 | 54 |
| Newid i gerbyd allyriadau is | 72 | 51 |


*Sylfaen: Wedi gweld ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru (305); heb weld ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru (636)*

O gymharu lefelau gwybodaeth dros amser, yn gyffredinol, mae canlyniadau 2024 yn gyson â'r rhai o 2023. Mae ymatebwyr yn parhau i deimlo'n fwyaf gwybodus am sut i ailgylchu mwy, sut i leihau eu gwastraff bwyd, sut i ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl a sut i leihau'r hyn y maent yn ei brynu. Yn yr un modd, maent yn dal i deimlo'n llai gwybodus am newid i gerbyd allyriadau is, newid i dariff ynni gwyrdd, a newid i ynni adnewyddadwy.

Ond mae gwybodaeth am rai ymddygiadau wedi cynyddu'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall, sef:

- Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (gyda 74% yn dweud yn 2024 eu bod yn gwybod 'llawer iawn'/ 'cryn dipyn' am sut i wneud hyn, cynnydd o'i gymharu â 69% yn 2023)
- Siopa'n gynaliadwy (i fyny i 71%, o 67% yn 2023)
- Newid i dariff ynni gwyrdd (i fyny i 59%, o 54% yn 2023).

*Ffigur 6: Faint y mae pobl yn ei wybod am wahanol ymddygiadau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, 2024 o gymharu â 2023, %*




*Sylfaen: Pawb (1,000)*

## 3.3 Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd (tymor byr a thymor hwy)

Holwyd ymatebwyr i'r arolwg am eu parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd neu i'w gwneud yn amlach (os oeddent yn eu gwneud nhw eisoes) yn y tymor byr (sef y flwyddyn nesaf) ac yn y tymor hwy (sef y pum mlynedd nesaf).

Roedd parodrwydd i weithredu **yn y tymor byr** yn uchel yn gyffredinol yn 2024. Gan edrych ar y rhai a ddywedodd fod pob gweithred yn berthnasol iddynt, roedd oddeutu wyth i naw o bob 10 o'r cyfranogwyr yn fodlon[4] gwneud pob un o'r canlynol neu eu gwneud yn amlach yn y flwyddyn nesaf:

[4] Hynny yw, wedi ateb 'ydw, yn sicr' neu 'ydw, mae'n debyg'

- Lleihau eu gwastraff bwyd (91% yn fodlon yn gyffredinol)
- Ailgylchu mwy (91% yn fodlon)
- Lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref (88% yn fodlon)
- Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (86% yn fodlon)
- Lleihau'r hyn y maent yn ei brynu (85% yn fodlon)
- Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd (83% yn fodlon)
- Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (77% yn fodlon)
- Siopa'n gynaliadwy (77% yn fodlon)

Roedd cyfrannau ychydig yn is (oddeutu chwech i saith o bob 10) yn fodlon gwneud y canlynol:

- Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy (73% yn fodlon)
- Addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (73% yn fodlon)
- Gosod mesurydd clyfar (69% yn fodlon)
- Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy (65% yn fodlon)
- Hedfan llai (63% yn fodlon)
- Newid i dariff ynni gwyrdd (63% yn fodlon).


Yn llai cadarnhaol, dim ond oddeutu pedwar o bob 10 oedd yn fodlon ystyried newid i ynni adnewyddadwy neu newid i gerbyd allyriadau is yn y flwyddyn nesaf (44% a 42% yn y drefn honno). Yn wir, atebodd cynifer bron, gan ddweud yn sicr neu ei bod yn debygol **na fyddent yn fodlon** cymryd y camau hyn yn y tymor byr (38% yn achos newid i gerbyd hybrid neu drydan a 32% ar gyfer newid i ynni adnewyddadwy).

Ymhlith yr ymddygiadau eraill lle'r oedd rhywfaint o wrthwynebiad yn amlwg yn y tymor byr roedd:

- Gosod mesurydd clyfar (21% yn anfodlon)
- Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy (21% yn anfodlon)
- Hedfan llai (20% yn anfodlon)
- Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy (16% yn anfodlon)

Hefyd, roedd cyfrannau sylweddol o'r rhai a gyfwelwyd yn ansicr a fyddent yn fodlon newid i dariff ynni gwyrdd neu newid i ynni adnewyddadwy (24% yn ansicr ym mhob achos) (gweler Ffigur 7).

*Ffigur 7: Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd **yn y flwyddyn nesaf – 2024**, %*





*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 761 i 990)*
*Sylwer: Yn fodlon = y rhai a atebodd Ydw, yn sicr /Ydw, o bosibl; Yn anfodlon = y rhai a atebodd Nac ydw, yn sicr/ Nac ydw, yn ôl pob tebyg*

O ran mwyafrif y dimensiynau, ar y cyfan, roedd parodrwydd i weithredu yn y flwyddyn nesaf yn debyg yn 2024 o gymharu â 2023. Fodd bynnag, mae parodrwydd i gymryd camau tymor byr wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer dau ymddygiad o'r naill flwyddyn i'r llall:

- Gosod mesurydd clyfar – roedd 69% o'r cyfranogwyr yn 2024 yn sicr/ o bosibl yn fodlon gwneud hynny yn y flwyddyn nesaf (cynnydd o'i gymharu â 63% yn 2023)
- Newid i dariff ynni gwyrdd – roedd 63% yn sicr/ o bosibl yn fodlon gwneud hynny yn y flwyddyn nesaf (cynnydd o'i gymharu â 57% yn 2023).

Ar yr un pryd, mae parodrwydd i addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni wedi gostwng yn sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall – o 77% o'r cyfranogwyr yn 2023 i 73% yn 2024.

*Ffigur 8: Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd* ***yn y flwyddyn nesaf – 2024 o gymharu â 2023****, %*





*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 757 i 989)*
*Sylwer: Bodlon = y rhai a atebodd Ydw, yn sicr/ Ydw, o bosibl*

Fel y gwelwyd yn yr arolwg llinell sylfaen, roedd parodrwydd pobl i ystyried mabwysiadu pob ymddygiad **yn y tymor hwy**, hynny yw dros y pum mlynedd nesaf, yn uwch yn gyffredinol nag yn y tymor byr. Aroleuir mewn gwyrdd yr ymddygiadau lle'r oedd parodrwydd i weithredu mewn ffrâm amser o bum mlynedd yn sylweddol uwch na pharodrwydd i weithredu yn y flwyddyn nesaf yn Ffigur 9.

Fel yn 2023, roedd y cynnydd uchaf mewn parodrwydd yn y tymor hwy yn amlwg ar gyfer gweithredoedd lle'r oedd parodrwydd tymor byr i weithredu ar ei isaf (hynny yw, newid i gerbyd allyriadau is neu newid i ynni adnewyddadwy). Er bod cynnydd o oddeutu 7%-10% yn y gyfran a oedd yn fodlon gwneud pob un wrth edrych ar gyfnod estynedig, arhosodd parodrwydd i weithredu yn gymharol isel ar gyfer yr

ymddygiadau hyn – roedd 52% yn fodlon newid i gar hybrid neu drydan ac roedd 51% yn fodlon newid i ynni adnewyddadwy dros y pum mlynedd nesaf.

*Ffigur 9: Parodrwydd i gymryd camau penodol yn y **tymor byr o'i gymharu â'r tymor hwy – 2024**, %*




*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 757 i 989)*
*Sylwer: Bodlon = y rhai a atebodd Ydw, yn sicr/ Ydw, o bosibl*

Dywedodd cyfrannau sylweddol uwch o ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru eu bod yn sicr yn fodlon gweithredu ar bob ymddygiad yn y flwyddyn nesaf o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn cofio gweld yr ymgyrch.

Gwelwyd y gwahaniaethau mwyaf o ran parodrwydd ar gyfer newid i gerbyd allyriadau is, bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy, newid i ynni adnewyddadwy a siopa'n gynaliadwy (gweler Tabl 12).

*Tabl 12: Parodrwydd i gymryd camau penodol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn y flwyddyn nesaf yn ôl ymwybyddiaeth o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru*

| *% yn dweud eu bod yn sicr yn fodlon gwneud pob un/ ei wneud yn amlach yn y flwyddyn nesaf...* | **Wedi gweld yr ymgyrch** | **Heb weld yr ymgyrch** |
|---|---|---|
| Ailgylchu mwy | 73 | 63 |
| Lleihau fy ngwastraff bwyd | 72 | 58 |
| Lleihau fy nefnydd o ynni a dŵr gartref | 63 | 48 |
| Gosod mesurydd clyfar | 63 | 45 |
| Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl | 57 | 45 |
| Bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy | 55 | 31 |
| Lleihau'r hyn yr wyf yn ei brynu | 53 | 47 |
| Gyrru llai a cherdded neu feicio mwy | 53 | 39 |
| Atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd | 52 | 40 |
| Addasu fy nghartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni | 51 | 33 |
| Siopa'n gynaliadwy | 51 | 31 |
| Newid i dariff ynni gwyrdd | 47 | 29 |
| Gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy | 46 | 33 |
| Hedfan llai | 45 | 37 |
| Newid i gerbyd allyriadau is | 44 | 16 |
| Newid i ynni adnewyddadwy | 38 | 16 |

*Sylfaen: Pawb ac eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn berthnasol i mi' (mae maint y sylfaen ar gyfer pob gweithred yn amrywio o 761 i 990)*

## 3.4 Deall pa gamau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd

Yna rhoddwyd y rhestr o ymddygiadau i'r sawl a oedd yn ymateb i'r arolwg a gofynnwyd iddynt ddewis y tri cham gweithredu yr oeddent yn meddwl fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 10.


Yn 2024, y weithred y canfuwyd ei bod yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd ac a ddewiswyd gan y gyfran fwyaf o ymatebwyr oedd **ailgylchu mwy**, a ddewiswyd gan dri o bob 10 (31%) o'r rhai a gyfwelwyd (cynnydd sylweddol o'i gymharu â lefel 2023, sef 25%). Dewisodd bron i dri o bob 10 o gyfranogwyr **hedfan llai** (28% – gostyngiad sylweddol o'i gymharu â 33% yn 2023) a **lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref** (27% – mwy neu lai yr un fath â lefel 2023, sef 28%).

Dewisodd oddeutu un o bob pedwar newid i ynni adnewyddadwy ac addasu eu cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni, a dewisodd oddeutu un o bob pump gyrru llai a cherdded neu feicio mwy, newid i gerbyd allyriadau is, gyrru llai a

defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy, lleihau eu gwastraff bwyd ac ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl.

Y camau y teimlwyd eu bod yn llai pwysig wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd (y dewiswyd pob un ohonynt gan oddeutu un o bob 10 neu lai o'r rhai a gyfwelwyd) oedd gosod mesurydd clyfar, bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy, a siopa'n gynaliadwy.

*Ffigur 10: Canfyddiadau o ba gamau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael â newid hinsawdd – 2024 o gymharu â 2023, %*




*Sylfaen: Pawb (1,000)*

## 3.5 Canfyddiadau risg ar gyfer effeithiau newid hinsawdd penodol

Ychwanegwyd cwestiynau newydd at arolwg 2024 i asesu canfyddiadau risg pobl o effeithiau penodol hinsawdd sy'n newid[5]. Mesurwyd canfyddiadau risg gan ddefnyddio dau gwestiwn: roedd y cwestiwn cyntaf yn mesur pryder pe byddai'r effeithiau hyn yn digwydd a'r ail yn mesur safbwyntiau ymatebwyr ynghylch pa mor debygol ydyw y bydd yr effeithiau hyn yn digwydd yng Nghymru erbyn 2050.


[5] Addaswyd o British Public Perceptions of Climate Risk, Adaptation Options and Resilience (RESiL RISK) Survey, Hydref 2019 [resilrisk-FINAL-ONLINE.pdf]

Rhoddwyd rhestr o risgiau posibl i ymatebwyr yr arolwg a gofynnwyd iddynt ba mor bryderus oeddent ynghylch y posibilrwydd y byddai pob un yn digwydd yng Nghymru. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 11.

Denodd bron i bob risg lefelau uchel o bryder, gydag o leiaf saith o bob 10 o ymatebwyr yn nodi eu bod yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' am bob un. Nodwyd y lefel uchaf o bryder ar gyfer cynnydd ym mhrisiau bwyd (ar 91%), a ddilynwyd gan y risg o golled/dirywiad mewn rhai mathau o fywyd gwyllt, gostyngiad mewn bywyd gwyllt morol, iechyd pobl yn dioddef mewn gwres eithafol a thanau gwyllt yn bygwth dinistrio bywyd gwyllt, cynefinoedd ac eiddo (yr oedd pob un ohonynt yn bryder i dros wyth o bob 10 o gyfranogwyr yr arolwg).

Yr unig effeithiau y mynegodd llai na dau o bob tri ymatebydd bryder yn eu cylch oedd mwy o bobl yn symud yn barhaol i Gymru o wledydd eraill (61% yn bryderus) a thyrfedd difrifol ar hediadau (51% yn bryderus).

*Ffigur 11: Pa mor bryderus fyddech chi, os o gwbl, am y posibilrwydd y byddai'r canlynol yn digwydd yng Nghymru, 2024 %*





*Sylfaen: Pawb (1,000)*
*Sylwer: Yn bryderus = y rhai a atebodd Yn bryderus iawn/ Yn weddol bryderus; Ddim yn bryderus = y rhai a atebodd Ddim yn bryderus iawn/ Ddim yn bryderus o gwbl*

Er bod yr un patrwm yn amlwg ar gyfer tebygolrwydd, roedd y tebygolrwydd disgwyliedig y byddai'r effeithiau hyn yn digwydd yng Nghymru erbyn 2050 yn tueddu i fod yn is na'r pryder ar y cyfan. Wedi dweud hynny, roedd o leiaf hanner y rhai a holwyd yn teimlo bod pob un o'r 15 o effeithiau yn 'debygol iawn' neu'n 'weddol debygol' o fod yn fwy cyffredin yng Nghymru erbyn 2050 (gweler Ffigur 12).

Y canfyddiadau risg uchaf i Gymru oedd cynnydd mewn prisiau bwyd a cholled neu ddirywiad mewn rhai mathau o fywyd gwyllt. Dilynwyd y rhain gan iechyd pobl yn dioddef mewn gwres eithafol, gostyngiad mewn bywyd gwyllt morol, mwy o gartrefi'n dioddef llifogydd ac arfordiroedd isel yn cael eu boddi neu eu herydu'n barhaol.

*Ffigur 12: Pa mor debygol neu annhebygol ydyw, yn eich barn chi, y bydd y canlynol yn fwy cyffredin yng Nghymru yn 2050, 2024, %*




*Sylfaen: Pawb (1,000)*
*Sylwer: Tebygol = y rhai a atebodd Yn debygol iawn/ Yn weddol debygol; Annhebygol = y rhai a atebodd Yn annhebygol iawn/ Yn weddol annhebygol*

Er mwyn deall a yw pobl yn credu bod newid hinsawdd yn chwarae rhan mewn esbonio digwyddiadau eithafol penodol, gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn meddwl bod nifer o ddigwyddiadau tywydd diweddar wedi eu hachosi gan newid hinsawdd.

Roedd mwyafrif clir (rhwng 73% a 77%) o'r farn bod newid hinsawdd yn 'sicr' neu'n 'debygol' o fod wedi chwarae rhan mewn achosi tymheredd poeth yn y DU ac Ewrop

yn 2022, tanau gwyllt yng Ngwlad Groeg yn ystod haf 2024, llifogydd mawr yn y DU a Chymru yn ystod gaeaf 2023/2024 (er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin a Chaerffili) ac mewn achosi lefelau uchel o law yn ystod gwanwyn 2024.

Ni wnaeth lleiafrif o rhwng 16% a 21% briodoli unrhyw un o'r digwyddiadau tywydd diweddar hyn i newid hinsawdd (gweler Tabl 13).

*Tabl 13: A yw digwyddiadau tywydd penodol yn gysylltiedig â newid hinsawdd*

| % | Mae'n sicr bod newid hinsawdd wedi chwarae rhan mewn achosi'r digwyddiad hwn | Mae'n debygol bod newid hinsawdd wedi chwarae rhan | Mae'n annhebygol bod newid hinsawdd wedi chwarae rhan | Ni chwaraeodd newid hinsawdd ran | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Y tymheredd poeth yn Ewrop a'r DU yn 2022 | 36 | 41 | 12 | 6 | 6 |
| Tanau gwyllt yng Ngwlad Groeg yr haf hwn | 34 | 43 | 10 | 6 | 7 |
| Llifogydd mawr yn y DU a Chymru yn ystod gaeaf 2023/24 | 27 | 46 | 13 | 8 | 6 |
| Y lefelau uchel o law dros y gwanwyn hwn | 26 | 47 | 13 | 6 | 7 |

*Sylfaen: Pawb (1,000)*

### 3.6 Ymwybyddiaeth o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru, a'i heffaith

Cafodd cwestiynau eu hychwanegu at arolwg 2024 i fesur ymwybyddiaeth o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru ac i asesu effeithiolrwydd ei galwad i weithredu.

Ar ôl cael eu cymell â detholiad o ddelweddau o'r ymgyrch, roedd **27% ar y cyfan yn cofio ei gweld** yn flaenorol. Cafwyd y niferoedd uchaf a oedd yn ei chofio ymhlith pobl ifanc (37% o bobl 16-34 oed, o'u cymharu â 31% o bobl 35-54 oed a 18% o bobl dros 55 oed), grwpiau ABC1 (29% o gymharu â 25% o'r grwpiau C2DE) ac yn ne Cymru (33% o'r rhai sy'n byw yng Nghaerdydd a de Cymru, o'u cymharu ag 20% yn y gogledd).


Dangoswyd rhestr o weithredoedd i'r rhai a oedd yn cofio gweld yr ymgyrch a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gwneud unrhyw rai o'r gweithredoedd ar ôl ei gweld (gweler Ffigur 13). Roedd chwech o bob 10 o'r rhai a oedd wedi gweld yr ymgyrch wedi cymryd rhai camau, h.y.:

- roedd 40% wedi mynd ar-lein i ganfod mwy am newid hinsawdd
- roedd 29% wedi siarad â rhywun am yr hysbysebion
- roedd 23% wedi mynd at wefan Gweithredu ar Hinsawdd Cymru.

Y rhai a oedd fwyaf tebygol o fod wedi cymryd rhai camau ar ôl gweld yr ymgyrch oedd pobl iau (roedd 75% o bobl 16-34 oed wedi gwneud rhywbeth) a'r rhai yn y grŵp ABC1 (roedd 65% wedi gwneud rhywbeth).

Mewn cyferbyniad, nid oedd 40% o'r rhai a oedd yn cofio'r ymgyrch wedi gwneud dim byd ar ôl gweld yr hysbysebion.

*Ffigur 13: Ymwybyddiaeth o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru, a'i heffaith, %*




*Sylfaen: Y rhai a oedd yn ymwybodol o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru pan gawsant eu cymell (305)*
*Sylwer: nid yw'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd bod mwy nag un ymateb yn bosibl*

Cafodd effaith yr ymgyrch wrth gymell pobl i fabwysiadu pob un o'r ymddygiadau penodol ei hasesu hefyd yn 2024 am y tro cyntaf. Dywedodd oddeutu saith o bob 10 o'r rhai a oedd yn cofio gweld yr ymgyrch eu bod yn teimlo mwy o gymhelliant i wneud y canlynol ar ôl gweld yr hysbysebion:


- Lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref (73%)
- Lleihau eu gwastraff bwyd (72%)
- Ailgylchu mwy (71%)
- Ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (69%)

Dywedodd o leiaf hanner y rhai a oedd wedi gweld yr ymgyrch ei bod wedi gwneud iddynt deimlo mwy o gymhelliant i weithredu ar bob ymddygiad arall hefyd, er enghraifft 51% i hedfan llai, 52% i newid i gerbyd allyriadau is a 58% i newid i dariff ynni gwyrdd.

Dywedodd rhwng 25% (ar gyfer lleihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref) a 43% (ar gyfer hedfan llai) nad oedd yr ymgyrch wedi gwneud unrhyw wahaniaeth iddynt.

Dywedodd cyfran fach iawn o'r rhai a oedd yn cofio'r ymgyrch (yn amrywio rhwng 2% a 5%) ei bod wedi rhoi llai o gymhelliant iddynt weithredu.

*Ffigur 14: Effaith yr ymgyrch ar y cymhelliant i weithredu – 2024, %*




*Sylfaen: Y rhai a oedd yn ymwybodol o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru pan gawsant eu cymell (305)*

## 4. Crynodeb a chasgliadau

Mae canlyniadau arolwg 2024 yn dangos symudiadau cadarnhaol ar rai dimensiynau ers yr arolwg llinell sylfaen yn 2023:

- Cynnydd yng nghyfran y bobl yng Nghymru sy'n gweithredu ar rai ymddygiadau ar hyn o bryd (e.e. bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy, gosod mesurydd clyfar a newid i dariff ynni gwyrdd – mae pob un ohonynt wedi cynyddu'n sylweddol ers 2023). Yn fwy na hynny, er bod cyfran y rhai sy'n cymryd camau i newid i ynni adnewyddadwy ac i newid i gerbyd allyriadau is yn parhau i fod yn isel (llai na phedwar o bob 10), bu cynnydd sylweddol ar y ddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Cynnydd mewn gwybodaeth am y camau unigol y gall pobl yng Nghymru eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd – mae'r gyfran sy'n dweud eu bod yn teimlo'n gymharol wybodus am y camau y gallant eu cymryd wedi cynyddu o 43% yn 2023 i 50% yn 2024. O ran ymddygiadau penodol, bu cynnydd sylweddol yn lefel yr wybodaeth am sut i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy, siopa'n gynaliadwy a newid i dariff ynni gwyrdd.
- Er bod parodrwydd cyffredinol i weithredu yn y flwyddyn nesaf yn debyg o'r naill flwyddyn i'r llall o ran mwyafrif y dimensiynau, bu cynnydd sylweddol o ran parodrwydd i weithredu yn y tymor byr ar ddau ymddygiad yn 2024:
    - Gosod mesurydd clyfar, a
    - Newid i dariff ynni gwyrdd.

Hefyd, roedd y rhai a oedd yn ymwybodol o ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru:

- Yn fwy tebygol o gymryd camau eisoes – ar gyfer bron i bob ymddygiad, roedd y rhai a oedd yn ymwybodol o'r hysbysebion yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud cymaint ag y gallent (neu eisoes wedi gwneud pob un) o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn cofio'r ymgyrch.
- Yn fwy gwybodus am y camau y gall pobl eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd – roedd 66% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r hysbysebion yn teimlo eu bod yn gwybod llawer iawn neu gryn dipyn am beth i'w wneud yn gyffredinol, o'u cymharu â 44% o'r rhai nad oeddent yn cofio'r ymgyrch. Roedd y rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch yn teimlo'n fwy gwybodus am sut i wneud pob ymddygiad i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn ymwybodol o'r hysbysebion.
- Yn fwy parod i weithredu ar bob ymddygiad yn y flwyddyn nesaf na'r rhai nad oeddent yn cofio gweld yr ymgyrch. Ymhlith y rhai a oedd wedi gweld ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru, dywedodd cyfrannau uwch eu bod yn sicr yn fodlon gwneud pob ymddygiad yn y flwyddyn nesaf, a gwelwyd y gwahaniaethau mwyaf o ran newid i gerbyd allyriadau is, bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy, newid i ynni adnewyddadwy a siopa'n gynaliadwy.

Mae tystiolaeth hefyd fod yr ymgyrch wedi bod yn effeithiol wrth annog pobl i ganfod mwy am newid hinsawdd ac wrth gymell pobl i weithredu:

- Dywedodd chwech o bob 10 o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch pan gawsant eu cymell eu bod wedi cymryd un neu fwy o'r camau gweithredu canlynol ar ôl ei gweld: mynd ar-lein i ganfod mwy am newid hinsawdd, siarad â rhywun arall am yr hysbysebion a/neu ymweld â gwefan Gweithredu ar Hinsawdd Cymru.
- Dywedodd o leiaf hanner y rhai a oedd wedi gweld yr ymgyrch ei bod wedi eu cymell yn fwy i weithredu ar bob ymddygiad, a dywedodd dros saith o bob 10 eu bod yn teimlo mwy o gymhelliant i leihau eu defnydd o ynni a dŵr gartref, lleihau eu gwastraff bwyd, ailgylchu mwy ac ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl o ganlyniad i'w gweld.

Er bod y niferoedd a honnodd eu bod wedi mabwysiadu ymddygiadau Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio yn uchel yn arolwg 2024, ar gyfer y mwyafrif o'r ymddygiadau hyn (ac eithrio ailgylchu), roedd cyfran uchel o'r rhai a oedd eisoes yn gwneud pob un i ryw raddau yn teimlo y gallent wneud mwy. Felly roedd oddeutu pedwar i bump o bob 10 o bobl yn gyffredinol yn teimlo bod lle i gynyddu'r hyn yr oeddent yn ei wneud o ran siopa'n gynaliadwy, atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd, lleihau'r hyn yr oeddent yn ei brynu ac ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl.

Felly, bydd canolbwyntio ar gamau pendant y gall unigolion eu cymryd o amgylch pob un o'r ymddygiadau hyn ym Mloc 3 ymgyrch Gweithredu ar Hinsawdd Cymru yn helpu i annog mwy o weithredu ar bob un ohonynt. Hefyd, bydd negeseuon sy'n herio neu'n darparu atebion i'r prif rwystrau canfyddedig i wneud pob un (e.e. canfyddiad ei bod yn costio mwy yn achos siopa'n gynaliadwy, a bod heb yr offer neu'r sgiliau cywir yn achos atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd) yn helpu i oresgyn y rhwystrau hyn ac yn annog mwy o bobl i weithredu arnynt.

Fel yn 2023, pan ofynnwyd pa weithredoedd oeddent yn credu fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar newid hinsawdd, roedd yr holl ymddygiadau Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio heblaw ailgylchu yn gymharol isel ar y rhestr. Mae hyn yn awgrymu na ddeellir effaith amgylcheddol siopa'n gynaliadwy, lleihau'r hyn a brynir, atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd, ac ati. Gallai negeseuon ym Mloc 3 yr ymgyrch ynghylch pwysigrwydd gwneud newidiadau i ymddygiadau Lleihau, Ailddefnyddio, Atgyweirio i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd gynorthwyo i wella dealltwriaeth y cyhoedd yn y maes hwn.

# Atodiad 1 – Holiadur Ymchwil

**Gweithredu ar Hinsawdd Cymru**
**Cwestiynau'r Arolwg Olrhain Ymddygiad TERFYNOL**

**C1a. Beth, os o gwbl, ydych chi'n ei wneud yn bersonol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd?** *Ysgrifennwch*

____________________________________________________________

**C1b. Faint ydych chi'n teimlo rydych chi'n ei wybod am y camau unigol y gall pobl yng Nghymru eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd?** *Dylid troi'r raddfa o chwith rhwng cyfweliadau*

Llawer iawn
Cryn dipyn
Ychydig
Dim

Ddim yn gwybod

**C2. Ydych chi'n cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd i...?**

[Ydw, rwy'n gwneud cymaint ag y gallaf *(newidiwch i rwyf eisoes wedi gwneud hyn – ar gyfer y pedwar ymddygiad olaf)*/ Ydw, rwy'n gwneud rhywbeth ond mae'n debyg y gallwn wneud mwy/ Nac ydw, nid wyf yn gwneud dim/ Ddim yn berthnasol i mi/ Ddim yn gwybod]

**GOFYNNWCH AR GYFER POB YMDDYGIAD** *[Rhowch drefn yr ymddygiadau ar hap]*

a) lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref
b) gyrru llai a cherdded neu feicio mwy
c) ailgylchu mwy
d) ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (e.e. prynu eitemau ail-law yn hytrach na rhai newydd, gwerthu neu roi pethau yn hytrach na'u taflu)
e) lleihau eich gwastraff bwyd (e.e. ailgynhesu bwyd dros ben, dim ond prynu'r bwyd yr ydych yn gwybod eich bod yn mynd i'w ddefnyddio, defnyddio cynnyrch ffres cyn iddo ddifetha, storio bwyd yn gywir i'w helpu i bara'n hirach)
f) gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy
g) atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd
h) lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu (e.e. dim ond prynu pethau sydd eu hangen arnoch, prynu eitemau o ansawdd gwell sy'n para'n hirach, benthyg neu rentu eitemau)
i) siopa'n gynaliadwy (e.e. siopa'n lleol, prynu gan gynhyrchwyr lleol, prynu eitemau sydd â llai o ddeunydd pacio, prynu cynnyrch ail-lenwi neu ddefnyddio siopau ail-lenwi)
j) bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (e.e. bwyta bwyd tymhorol, bwyta bwyd a gynhyrchir yn lleol, prynu bwyd sydd ag effeithiau carbon isel)

k) hedfan llai
l) addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (e.e. atal drafftiau, prynu bylbiau golau arbed ynni/deuodau allyrru golau, inswleiddio atig, llawr neu wal, inswleiddio pibellau dŵr poeth, gosod ffenestri gwydr dwbl neu driphlyg)
m) gosod mesurydd clyfar
n) newid i dariff ynni gwyrdd
o) newid i ynni adnewyddadwy (e.e. paneli solar, pympiau gwres)
p) newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)

**C3i. Nawr, gan feddwl am gamau penodol y gall pobl eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Ydych chi'n fodlon gwneud y canlynol neu eu gwneud yn amlach <u>yn ystod y flwyddyn nesaf</u>?** *[Rhowch drefn yr ymddygiadau ar hap]*

[Nac ydw, yn sicr /Nac ydw, yn ôl pob tebyg /Ddim yn siŵr/ Ydw, mae'n debyg/ Ydw, yn sicr/ Ddim yn berthnasol i mi] *[Trowch y raddfa o chwith rhwng cyfranogwyr]*

a) lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref
b) gyrru llai a cherdded neu feicio mwy
c) ailgylchu mwy
d) ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (e.e. prynu eitemau ail-law yn hytrach na rhai newydd, gwerthu neu roi pethau yn hytrach na'u taflu)
e) lleihau eich gwastraff bwyd (e.e. ailgynhesu bwyd dros ben, dim ond prynu'r bwyd yr ydych yn gwybod eich bod yn mynd i'w ddefnyddio, defnyddio cynnyrch ffres cyn iddo ddifetha, storio bwyd yn gywir i'w helpu i bara'n hirach)
f) gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy
g) atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd
h) lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu (e.e. dim ond prynu pethau sydd eu hangen arnoch, prynu eitemau o ansawdd gwell sy'n para'n hirach, benthyg neu rentu eitemau)
i) siopa'n gynaliadwy (e.e. siopa'n lleol, prynu gan gynhyrchwyr lleol, prynu eitemau sydd â llai o ddeunydd pacio, prynu cynnyrch ail-lenwi neu ddefnyddio siopau ail-lenwi)
j) bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (e.e. bwyta bwyd tymhorol, bwyta bwyd a gynhyrchir yn lleol, prynu bwyd sydd ag effeithiau carbon isel)
k) hedfan llai
l) addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (e.e. atal drafftiau, prynu bylbiau golau arbed ynni/deuodau allyrru golau, inswleiddio atig, llawr neu wal, inswleiddio pibellau dŵr poeth, gosod ffenestri gwydr dwbl neu driphlyg)

**GOFYNNWCH I BAWB AC EITHRIO'R RHAI SY'N ATEB 'YDW, YN SICR' AR GYFER POB YMDDYGIAD UCHOD**

**C3ii. Ydych chi'n barod i wneud pob un o'r rhain neu eu gwneud yn amlach <u>yn ystod y pum mlynedd nesaf</u>?** *[Rhowch drefn yr ymddygiadau ar hap ond dylid gofyn b) ac f) gyda'i gilydd bob amser]*

[Nac ydw, yn sicr/ Nac ydw, yn ôl pob tebyg/ Ddim yn siŵr/ Ydw, mae'n debyg/ Ydw, yn sicr] *[Trowch y raddfa o chwith rhwng cyfranogwyr]*

a) lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref
b) gyrru llai a cherdded neu feicio mwy
c) ailgylchu mwy
d) ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl (e.e. prynu eitemau ail-law yn hytrach na rhai newydd, gwerthu neu roi pethau yn hytrach na'u taflu)
e) lleihau eich gwastraff bwyd (e.e. ailgynhesu bwyd dros ben, dim ond prynu'r bwyd yr ydych yn gwybod eich bod yn mynd i'w ddefnyddio, defnyddio cynnyrch ffres cyn iddo ddifetha, storio bwyd yn gywir i'w helpu i bara'n hirach)
f) gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy
g) atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd
h) lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu (e.e. dim ond prynu pethau sydd eu hangen arnoch, prynu eitemau o ansawdd gwell sy'n para'n hirach, benthyg neu rentu eitemau)
i) siopa'n gynaliadwy (e.e. siopa'n lleol, prynu gan gynhyrchwyr lleol, prynu eitemau sydd â llai o ddeunydd pacio, prynu cynnyrch ail-lenwi neu ddefnyddio siopau ail-lenwi)
j) bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy (e.e. bwyta bwyd tymhorol, bwyta bwyd a gynhyrchir yn lleol, prynu bwyd sydd ag effeithiau carbon isel)
k) hedfan llai
l) addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni (e.e. atal drafftiau, prynu bylbiau golau arbed ynni/deuodau allyrru golau, inswleiddio atig, llawr neu wal, inswleiddio pibellau dŵr poeth, gosod ffenestri gwydr dwbl neu driphlyg)

**C4i. Dyma fwy o gamau penodol y gall pobl eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Ydych chi'n barod i wneud y canlynol <u>yn ystod y flwyddyn nesaf</u>?**
***[Rhowch drefn yr ymddygiadau ar hap]***

[Nac ydw, yn sicr/ Nac ydw, yn ôl pob tebyg/ Ddim yn siŵr/ Ydw, mae'n debyg/ Ydw, yn sicr/ Ddim yn berthnasol i mi] *[Trowch y raddfa o chwith rhwng cyfranogwyr]*

a) gosod mesurydd clyfar
b) newid i dariff ynni gwyrdd
c) newid i ynni adnewyddadwy (e.e. paneli solar, pympiau gwres)
d) newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)

**GOFYNNWCH I BAWB AC EITHRIO'R RHAI SY'N ATEB 'YDW, YN SICR' AR GYFER POB YMDDYGIAD UCHOD**

**C4ii. Ydych chi'n fodlon gwneud pob un o'r rhain <u>yn ystod y pum mlynedd nesaf</u>?**
*[Rhowch drefn yr ymddygiadau ar hap]*

[Nac ydw, yn sicr/ Nac ydw, yn ôl pob tebyg/ Ddim yn siŵr/ Ydw, mae'n debyg/ Ydw, yn sicr] *[Trowch y raddfa o chwith rhwng cyfranogwyr]*

a) gosod mesurydd clyfar
b) newid i dariff ynni gwyrdd
c) newid i ynni adnewyddadwy (e.e. paneli solar, pympiau gwres)

d) newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)

**C5. Faint ydych chi'n ei deimlo rydych chi'n ei wybod am sut i wneud pob un o'r pethau canlynol. Yn gyntaf, sut i [ymddygiad 1]...?**
[Llawer iawn/ cryn dipyn/ ychydig/ dim/ ddim yn gwybod]

**GOFYNNWCH AR GYFER POB YMDDYGIAD:**

a) lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref
b) gyrru llai a cherdded neu feicio mwy
c) ailgylchu mwy
d) ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl
e) lleihau eich gwastraff bwyd
f) gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy
g) atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd
h) lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu
i) siopa'n gynaliadwy
j) bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy
k) hedfan llai
l) addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni
m) gosod mesurydd clyfar
n) newid i dariff ynni gwyrdd
o) newid i ynni adnewyddadwy
p) newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)

**<u>AR GYFER POB UN LLE RHODDIR YR ATEB YDW YN C2, GOFYNNWCH GWESTIWN DILYNOL</u>**
*[Atebion sawl ymateb]*

**C6a. Beth ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i leihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref?**

Gwirio fy sgôr ynni cartref
Gostwng y thermostat/ y gosodiadau ar reiddiaduron yn ystod y misoedd oerach (h.y. y tymheredd y gwresogir y tŷ iddo)
Defnyddio'r gwres yn llai aml yn ystod y misoedd oerach neu oedi'r adeg o'r flwyddyn yr ydych yn ei droi ymlaen
Gwisgo dillad cynhesach yn ystod y misoedd oerach
Lleihau tymheredd llif y boeler
Gostwng tymheredd y dŵr poeth ar fy moeler combi
Sychu dillad yn yr awyr agored/ ar declyn sychu dillad yn hytrach na defnyddio'r peiriant sychu dillad
Awyru neu gysgodi fy nghartref mewn tywydd cynhesach (e.e. cau llenni a bleinds er mwyn atal golau haul uniongyrchol, agor ffenestri gyda'r nos i adael aer oerach i mewn)
Agor llenni i adael golau yr haul i gynhesu'r tŷ
Canfod pa grantiau a chymorth y gallaf eu cael ar gyfer fy nghartref
Gollwng aer o'r rheiddiaduron yn rheolaidd

Cadw rheiddiaduron yn glir er mwyn galluogi gwres i ledaenu'n gynt (e.e. drwy beidio â sychu dillad ar reiddiaduron na'u gorchuddio nhw)
Diffodd y golau pan nad wyf yn yr ystafell
Tynnu plygiau dyfeisiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
Cymryd cawod, nid bath
Lleihau'r amser yr wyf yn ei dreulio yn y gawod
Dim ond defnyddio'r peiriant golchi pan fo gennyf lwyth llawn
Golchi ar dymheredd is e.e. 30 gradd

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6b Beth ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i yrru llai a cherdded neu feicio mwy?**

Cerdded/ mynd mewn cadair olwyn neu feicio i'r ysgol gyda fy mhlant
Cerdded/ mynd mewn cadair olwyn neu feicio i'r gwaith
Cerdded/ mynd mewn cadair olwyn neu feicio i'r siopau
Cael diwrnod heb gar/fan/beic modur o leiaf unwaith yr wythnos
Wedi prynu beic

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6c. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i ailgylchu mwy?**

Ailgylchu'r holl eitemau y gellir eu hailgylchu gartref yn gywir (e.e. poteli, plastigau, cardfwrdd)
Mynd ag eitemau ailgylchadwy na ellir eu hailgylchu gartref i ganolfannau ailgylchu'r Cyngor/archfarchnadoedd (e.e. bagiau/gorchudd plastig, dillad/ tecstilau, dodrefn, eitemau trydanol)
Gwirio'r hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu
Rhoi'r holl wastraff bwyd yn fy min ailgylchu gwastraff bwyd (cadi)

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6d. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl?**

Prynu eitemau ail-law neu wedi eu defnyddio yn hytrach na rhai newydd (e.e. o eBay, Vinted, Facebook Marketplace, arwerthiannau cist car a siopau elusen)
Rhoi neu werthu eitemau nad wyf eu heisiau (e.e. drwy eBay, Vinted, Facebook Marketplace, arwerthiannau cist car a siopau elusen)
Addasu pethau at wahanol ddiben yn hytrach na'u taflu
Uwchgylchu neu ailwampio dodrefn neu ddillad
Defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio (e.e. cwpanau coffi, bagiau siopa, poteli dŵr, gwellt y gellir eu hailddefnyddio)

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6e. Beth ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i leihau eich gwastraff bwyd?**

Aildwymo bwyd dros ben neu ei ddefnyddio mewn gwahanol bryd yn hytrach na'i daflu
Dim ond prynu'r bwyd yr wyf yn gwybod fy mod i'n mynd i'w ddefnyddio, e.e. drwy gynllunio prydau yn fwy gofalus
Gwirio'r hyn sydd yn yr oergell neu'r rhewgell cyn i mi fynd i siopa
Defnyddio cynnyrch ffres cyn iddo ddifetha
Coginio mewn swmp a rhewi prydau ar gyfer pryd bydd eu hangen
Gwirio'r dyddiadau 'ar ei orau cyn' a 'defnyddio erbyn' ar fwyd wrth siopa
Gwirio bod y bwyd yr wyf yn ei brynu yn cael ei storio'n gywir i'w helpu i bara'n hirach
Compostio gwastraff bwyd gartref

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6f. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i yrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy?**

Cael diwrnod heb gar/fan/beic modur o leiaf unwaith yr wythnos
Mynd ar y bws neu'r trên i'r gwaith neu i'r ysgol/ coleg/ prifysgol
Mynd ar y bws neu'r trên i fynd i siopa
Mynd ar y bws neu'r trên ar gyfer teithiau hamdden/ diwrnod allan/ noson allan
Rhannu car (e.e. gyda chydweithwyr neu ar y daith i'r ysgol ac adref)
Wedi ymuno â chlwb ceir

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6g. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd?**

Dysgu sut i wnïo
Yn prynu neu wedi prynu peiriant gwnïo
Dod o hyd i'm canolfan atgyweiriadau agosaf neu wedi dod o hyd iddi
Dysgu sut i atgyweirio eitemau sydd wedi torri
Trwsio neu atgyweirio eitemau sydd wedi torri (e.e. fy hun, gweithiwr proffesiynol neu mewn caffio atgyweiriadau)
Uwchgylchu neu ailwampio dodrefn neu ddillad

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6h. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i leihau'r hyn yr ydych yn ei brynu?**

Dim ond prynu'r hyn sydd ei angen arnaf
Prynu llai o bethau
Prynu brandiau dibynadwy sy'n darparu cymorth cwsmeriaid/ atgyweiriadau ar ôl prynu
Prynu eitemau o ansawdd gwell a fydd yn para'n hirach
Peidio â phrynu pethau newydd dim ond er mwyn eu prynu
Defnyddio eitemau sydd gennyf eisoes
Benthyg neu rentu eitemau (e.e. llyfrau llyfrgell, offer, teganau, ac ati)
Uwchgylchu neu ailwampio dodrefn neu ddillad
Defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio (e.e. cwpanau coffi, bagiau siopa, poteli dŵr, gwellt y gellir eu hailddefnyddio)

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6i. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i siopa'n gynaliadwy?**

Siopa'n lleol
Prynu gan gynhyrchwyr lleol
Dewis prynu gan fusnesau cynaliadwy
Prynu eitemau sydd â llai o ddeunydd pacio
Prynu cynnyrch ail-lenwi pan fo hynny'n bosibl
Defnyddio siopau ail-lenwi

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6j. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i fwyta'n lleol ac yn gynaliadwy?**

Bwyta bwyd tymhorol
Bwyta bwyd a gynhyrchir yn lleol
Dysgu mwy am fwyd cynaliadwy
Prynu bwyd sydd ag effeithiau carbon isel

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6k. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i hedfan llai?**

Ymchwilio i ddewisiadau eraill yn hytrach na hedfan wrth deithio dramor
Defnyddio dewisiadau eraill yn hytrach na hedfan wrth deithio dramor
Lleihau'r nifer o weithiau yr wyf yn hedfan bob blwyddyn
Lleihau nifer yr hediadau pellter hir yr wyf yn eu gwneud pob blwyddyn (e.e. i UDA, India, Affrica, Awstralia)
Mynd ar wyliau yng Nghymru
Mynd ar wyliau yn y DU

Ddim yn gwybod

Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6l. Beth ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni?**

Yn gosod neu wedi gosod mesurau atal drafftiau
Prynu neu ddefnyddio bylbiau golau arbed ynni/deuodau allyrru golau
Yn inswleiddio neu wedi inswleiddio atig, llawr neu wal
Yn inswleiddio neu wedi inswleiddio'r pibellau dŵr poeth yn y tŷ
Yn gosod neu wedi gosod ffenestri gwydr dwbl neu driphlyg
Yn gosod neu wedi gosod pen cawod sy'n arbed dŵr
Gwasanaethu a chynnal a chadw fy system gwres canolog/gollwng aer o'm rheiddiaduron yn rheolaidd
Yn gosod neu wedi gosod goleuadau amseru ar switshys
Defnyddio gwresogi clyfar a/neu oleuadau clyfar (a reolir gan ap)
Defnyddio goleuadau synhwyro symudiadau
Yn gosod neu wedi gosod ffilmiau ffenestr solar neu wres

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6m. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i osod mesurydd clyfar?**

Ymchwilio i sut i osod mesurydd clyfar gartref
Rwyf wedi cysylltu â'm cyflenw(y)r ynni
Rwyf yn aros i'm cyflenwr osod mesurydd clyfar

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6n. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i newid i dariff ynni gwyrdd?**

Ymchwilio i ddewisiadau tariff ynni gwyrdd yn gyffredinol
Ymchwilio i ddewisiadau tariff ynni gwyrdd sydd ar gael ar gyfer fy nghartref
Newid i gyflenwr arall sy'n darparu tariff ynni gwyrdd
Newid i dariff ynni gwyrdd gyda fy nghyflenwr presennol
Rwyf yn aros i'm cyflenwr newid y tariff

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6o. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i newid i ynni adnewyddadwy?**

Ymchwilio i ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer fy nghartref
Ymchwilio i unrhyw grantiau sydd ar gael
Yn gosod neu wedi gosod paneli solar
Yn gosod neu wedi gosod pwmp gwres

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**C6p. Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd i newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)?**

Ymchwilio i gerbydau hybrid neu drydan
Profi gyrru cerbydau hybrid neu drydan
Ymchwilio i unrhyw grantiau sydd ar gael ar gyfer prynu cerbyd hybrid neu drydan
Rwyf yn aros i glywed gan gyflenwr ar y camau nesaf
Rwyf yn y broses o brynu cerbyd hybrid neu drydan
Rwyf yn aros i bwynt gwefru gael ei osod gartref

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch) ___________

**AR GYFER POB UN LLE RHODDIR YR ATEB NAC YDW YN C2, GOFYNNWCH GWESTIWN DILYNOL**
*[Atebion sawl ymateb]*

**C7a. Beth sy'n eich atal rhag lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Rwyf eisoes wedi lleihau cymaint ag y gallaf
Mae'n well gennyf fod â chartref cynnes
Mae'n well gen i faddon na chawod

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7b. Beth sy'n eich atal rhag gyrru llai a cherdded neu feicio mwy?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am lwybrau cerdded a beicio yn fy ardal
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Mae diffyg llwybrau cerdded a beicio da yn fy ardal
Mae'r mwyafrif o'm teithiau yn rhy bell i'w cerdded neu eu beicio
Nid wyf yn berchen ar feic

Rwy'n mwynhau gyrru a dydw i ddim eisiau cerdded neu feicio yn lle hynny
Nid wyf yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded a beicio
Nid wyf yn hyderus wrth gerdded neu feicio
Nid wyf yn gallu beicio neu gerdded

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7c. Beth sy'n eich atal rhag ailgylchu mwy?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Nid yw casgliadau/ dewisiadau ailgylchu yn dda lle'r wyf yn byw

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7d. Beth sy'n eich atal rhag ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Nid wyf yn hoffi'r syniad o nwyddau ail-law

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7e. Beth sy'n eich atal rhag lleihau eich gwastraff bwyd?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Nid wyf yn hoffi'r syniad o fwyta bwyd dros ben

Ddim yn gwybod

Arall (ysgrifennwch)

**C7f. Beth sy’n eich atal rhag gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am lwybrau a dewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn fy ardal
Mae’n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae’n costio gormod/ yn rhy ddrud i’w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna’r peth iawn i’w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus dda yn agos ataf
Rwy’n mwynhau gyrru ac nid wyf yn dymuno defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle hynny
Nid wyf yn teimlo’n ddiogel wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
Nid wyf yn teimlo’n hyderus wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
Nid wyf yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
Nid wyf yn gwybod am unrhyw gynlluniau rhannu car yn lleol

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7g. Beth sy’n eich atal rhag atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae’n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae’n costio gormod/ yn rhy ddrud i’w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna’r peth iawn i’w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Nid yw’r offer neu’r sgiliau iawn gennyf
Rwy’n mwynhau siopa am eitemau newydd

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7h. Beth sy’n eich atal rhag lleihau’r hyn yr ydych yn ei brynu?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae’n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae’n costio gormod/ yn rhy ddrud i’w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna’r peth iawn i’w wneud

Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Nid yw'r offer neu'r sgiliau iawn gennyf
Rwy'n mwynhau siopa am eitemau newydd
Mae'n well gennyf fod â'm pethau fy hun yn hytrach na benthyg gan bobl eraill

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7i. Beth sy'n eich atal rhag siopa'n gynaliadwy?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Rwy'n hoffi'r brandiau yr wyf yn eu prynu ar hyn o bryd ac nid wyf eisiau newid

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7j. Beth sy'n eich atal rhag bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Nid wyf wedi fy argyhoeddi ei fod yn dda i'm hiechyd
Mae'n anodd gyda fy anoddefiadau bwyd/ gofynion deietegol

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7k. Beth sy'n eich atal rhag hedfan llai?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Mae'n llai cyfleus teithio gan ddefnyddio dewisiadau eraill (e.e. mae'n arafach, yn anoddach ei drefnu, yn cynnwys mwy o newidiadau)

Rwy'n mwynhau hedfan
Nid wyf yn mynd ar wyliau/ hedfan

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7l. Beth sy'n eich atal rhag addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Mae'n anghyfleus (e.e. aflonyddgar, yn gofyn amser)

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7m. Beth sy'n eich atal rhag gosod mesurydd clyfar?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7n. Beth sy'n eich atal rhag newid i dariff ynni gwyrdd?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7o. Beth sy'n eich atal rhag newid i ynni adnewyddadwy?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C7p. Beth sy'n eich atal rhag newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)?**

Erioed wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf am sut i wneud hynny
Mae'n anodd ei wneud/ gormod o drafferth
Nid oes gennyf amser i wneud hynny
Mae'n costio gormod/ yn rhy ddrud i'w wneud
Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyna'r peth iawn i'w wneud
Nid fy nghyfrifoldeb/ penderfyniad i yw ef
Rwy'n hoffi fy nghar presennol ac nid wyf wedi dod o hyd i gerbyd trydan sy'n well gennyf
Nid wyf eisiau car trydan
Nid oes gen i gar/ ddim yn gyrru
Rwyf wedi prynu car newydd yn ddiweddar
Ni allaf osod gwefrwr (rwy'n byw mewn fflat neu dŷ teras)
Rwy'n pryderu nad oes digon o bwyntiau gwefru ledled Cymru

Ddim yn gwybod
Arall (ysgrifennwch)

**C8. Pa rai o'r gweithredoedd canlynol ydych chi'n credu fydd yn cael yr <u>effaith fwyaf</u> ar fynd i'r afael â newid hinsawdd? Dewiswch y <u>tair</u> yr ydych yn credu fyddai'n cael yr effaith fwyaf.**
[Dewiswch hyd at dair yn unig]

a) lleihau eich defnydd o ynni a dŵr gartref
b) gyrru llai a cherdded neu feicio mwy
c) ailgylchu mwy
d) ailddefnyddio pethau pan fo hynny'n bosibl
e) lleihau eich gwastraff bwyd
f) gyrru llai a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth a rennir yn fwy
g) atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu pethau newydd
h) lleihau'r hyn yr ydych yn ei brynu
i) siopa'n gynaliadwy
j) bwyta'n lleol ac yn gynaliadwy

k) hedfan llai
l) addasu eich cartref i'w wneud yn fwy effeithlon o ran ynni
m) gosod mesurydd clyfar
n) newid i dariff ynni gwyrdd
o) newid i ynni adnewyddadwy
p) newid i gerbyd allyriadau is (e.e. hybrid neu drydan)

**C9. Pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?** *Ticiwch un*

Yn bryderus iawn
Yn weddol bryderus
Ddim yn bryderus iawn
Ddim yn bryderus o gwbl
Ddim yn gwybod